


Atgofion

gan Brinley Jones



Copyright under the Copyright Act, 1910.

Companies staging "ATGOFION" must obtain the licence *before* any performance.

Licences are issued by the Author, 6 Caeracca Villas, Dowlais.

Fee for the first performance, 10/6.

Fee for any other performance, 7/6.

All communications concerning the plays of BRINLEY JONES should be addressed to the copyright-holder :—

Mrs. BRINLEY JONES,

8, LLEWELLYN STREET,
MERTHYR TYDFIL, GLAM.

Ail-argraffiad.

ATGOFION

(DRAMA MEWN UN ACT)

GAN

BRINLEY JONES.

Awdur "Marchogion y Nos." "Y Boncyff." "John a Jâms."

CYMERIADAU :

JOHN GRIFFITHS.

ESTHER (*ei wraig*).

SAM REES

RACHEL REES

} *Cymdogion drws nesaf.*

ATGOFION.

GOLYGFA : Cegin JOHN GRIFFITHS. Mae popeth yn daclus a glân. Mae drws i'r gegin fach ar y dde i'r gynulleidfa, a drws arall (yn amlwg) i'r ystryd ar y chwith. Ar y wâl, yn amlwg i bawb, mae almanac. Mae llestri tê yn barod ar y ford.

-:- -:- -:-

Cyfyd y llên ar ESTHER mewn ffedog fawr, neu "overall" â llewysau, yn dod i mewn o'r gegin fach gan gario bara, etc. Un bruddaidd ei gwedd yw ESTHER. Saif wrth y ford am ychydig, yna sych ddeigrin, a rhydd ochenaid. Yna daw curiad ar y drws ac ymddengys RACHEL, gwraig SAMUEL REES, drws nesaf. Ceisia ESTHER guddio ei gofid.

-:- -:- -:-

RACHEL : Wyt ti wedi cael tê, Esther ?

ESTHER : Ydw. Cymer gadair ; mae John yn gweithio 'mlaen.

RACHEL : Dim ond am ychydig o funudau. Mae Sam ar fynd i'r 'steddfod.

ATGOFION

ESTHER : Wyt ti'n mynd hefyd ?

RACHEL : Fi ? Dim perigl. Wfft iddi nhw a'u hên ganu ac adrodd. 'Rwyf am fynd lawr i'r dre' i weld Mari, fy chwaer.

ESTHER : 'Steddfod i'w chofio fydd hon.

RACHEL : 'Dyw'r Genedlaethol yn ddim i'w chymharu â hi. Mi fyddai'n falch i weld yfory. (*Yn eistedd*). Dim ond 'steddfod, a *male voice*, a *rallentando* glywir yn ein tŷ ni o fore tan nos.

ESTHER : Synnwn i fawr, Rachel.

RACHEL : Wyddost ti, mae Sam fel pe bae wedi ynfydu. Wrth gwrs, y mae John yn mynd ?

ESTHER (*yn dawel*) : Ydi.

RACHEL : A tithau hefyd, wrth gwrs.

ESTHER : Na, nid wy'n mynd heno.

RACHEL : Beth ? A'r fath gantores fuost ti erioed ! A ti wyddost am gystadleuaeth y *male voice* heno ; ni bu ei bath erioed !

ESTHER (*yn dawel iawn*) : Na, Rachel, arhosaf gartref.

RACHEL : Ond, Esther, fe fydd canu da yn y gystadleuaeth heno !

ATGOFION

ESTHER : Nid oes cân yn fy nghalon bellach. Torrwyd y tant.

RACHEL : Wel, wel, dyna un ôd wyt ti, a dweyd y lleiaf. Gall'swn feddwl—. (*Yn sylweddoli*.) O, ie, wrth gwrs. (*Ar ol seibiant*.) Faint sy' 'nawr oddiar y bu Neli fach farw ?

ESTHER (*gydag ymdrech*) : Blwyddyn—i heno.

RACHEL : Blwyddyn i heno ! Yr annwyl, annwyl. Druan fach ! Fel mae'r amser yn mynd !

ESTHER : Ydi.

RACHEL : Cannwyll llygad John oedd Neli fach.

ESTHER (*yn ddwys*) : Eitha' gwir.

RACHEL : Nid wyf yn cofio'n iawn—ai nid yn dy freichiau di y bu Neli fach farw ?

ESTHER (*mewn cyffro*) : Nage, ym mreichiau John.

RACHEL : Wrth gwrs, wrth gwrs ; 'nawr 'rwy'n cofio. Peth ôd fod John yn mynd heno, Esther !

ESTHER (*yn frysiog*) : Wedi anghofio'r *date* mae John, 'rwy'n siwr.

RACHEL : Dd'wedi di rywbeth wrtho i'w atgofio, Esther ?

ATGOFION

ESTHER (*yn apelgar*): Na, na, nid oes angen am wneud hynny. Gadewch i'r dynion gael eu dedwyddwch.

RACHEL: Gâd i fi ddweyd wrtho.

ESTHER (*yn codi ei llaw ac yn siglo ei phen*): Na— (*megis murmur*)—na.

RACHEL: Hwyrach mai ti sy'n iawn, Esther. Nyni, y menywod, sy'n cofio ac yn hiraethu. Dyna yw'n tynged ni ar y ddaear yma.

ESTHER: Hwyrach hynny, Rachel.

RACHEL: Mae yna lawer o lawenydd yn ddyledus i ni yn y byd arall, gall'swn feddwl. Oes, sicr o fod.

ESTHER: Mae hiraeth yn well na bod yn ddi-brofiad, Rachel. Fy eiddo i ydyw'r atgofion, wedi'r cyfan. (*Clywir lleisiau dynion tuallan yn pasio y drws.*) Bydd y lle yn orlawn heno, Rachel.

RACHEL: Maent yn dod o bobman; weles i ddim o'r fath beth erioed. Mae'r ddau gôr lleol wedi rhoddi'r goron ar y cyfan.

ESTHER: 'Rwy'n falch nad yw John yn y côr y tro hwn. Amhosibl iddo weithio gyda'r *contract* newydd 'ma a mynychu'r *rehearsals*.

ATGOFION

RACHEL: Byddai'n dân goleu 'ma rhwng Sam a John, pe bae un ohonynt ym *Male Voice* Dwynant, a'r llall yng Nghôr Pentwyn.

ESTHER: Eitha' gwir, Rachel.

RACHEL: Hyd yn oed fel y mae pethau, dim ond sôn am roddi "whiff" i hên gôr John y mae Sam, nos a dydd. Ydi John yn siarad rhywbeth am y corau?

ESTHER: Y mae ambell i frawddeg yn dod allan 'nawr ac yn y man. Weithiau clywaf ef yn mwrmian *Comrades in Arms*.

RACHEL: Dyna fe! *Comrades in Arms* sydd yn fy nghlustiau innau byth ac hefyd. Gwyn fyd na buasai'r gân heb ei chyfansoddi erioed.

ESTHER: Ychydig o wahaniaeth wnelai hynny. Mi fyddai'r *Martyrs of the Arena* yn codi tô ein tai ni wedyn.

RACHEL: *Martyrs of the Arena* yn wir! Mae'n bryd i ryw fenyw gyfansoddi darn o'r enw *Martyrs of the Kitchen*! Ydi'n wir.

ESTHER: Ond, Rachel, gwell fod ein dynion yn sobr ac yn dilyn y canu, na pe baent yn . . .

RACHEL (*yn gyflym*): Wrth gwrs, wrth gwrs. Ond trueni fod dynion yn cweryla â'u gilydd am ychydig o hên ganu. 'Nawr . . .

SAM (*o'r tuallan*): Rachel, Rachel!

RACHEL (*yn codi*): Os daw Sam i mewn, ar dy fywyd paid a sôn am *Comrades in Arms*.

SAM (*yn agor y drws*): Hylo! Ydi—O, 'rwyf ti yma, Rachel?

RACHEL: Cael sgwrs fach gydag Esther 'roeddwn i cyn mynd i'r dref.

ESTHER: Dewch ymlaen, ac eisteddwch.

SAM: Ydi John wedi dod adre'?

ESTHER: Nac ydi. Mae'n gweithio ymlaen. Nid wyf yn ei ddisgwyl am awr arall.

SAM: Awr arall? Y dyn, bydd y 'steddfod hanner drosodd, a'r *male voice* . . .

RACHEL: Rho lonydd i'r *male voice*, da ti. 'Rwyf bron a gwirioni wrth glywed y tragwyddol *Comrades in Arms*. (Wrth Esther). Dyna fi wedi'i gwneud hi!

SAM: Fe rown ni *Comrades in Arms* i'r sêd. Fe ddanghoswn iddynt sut i ganu. Nid chware plant bach yw cystadlu yn erbyn . . .

RACHEL (*yn ddi-amynedd*): Gloiaist ti ddrws y ffrynt cyn dod allan?

SAM (*yn chwilio yn ei logell, ac yn tynnu allan allwedd*): Naddo—ar ol dod allan. (*Yn rhoddi'r allwedd i Rachel*): Siarad 'roeddwn am *Comrades in Arms*. Fe ysgubwn y llawr â Chôr Pentwyn heno. Mae'n *tenors* ni . . .

RACHEL (*â'i dwylaw i fyny*): O'r nefoedd! Dôs i'r 'steddfod, er mwyn popeth, a phaid â phoeni Esther â dy lol. 'Rwy'n mynd i'r dre, Esther, allan o sôn *Comrades in Arms*. Noswaith dda, Esther.

(*Yn mynd allan*).

SAM (*ychydig yn hurt*): Mae—mae Rachel yn—yn—yn—yn—.

ESTHER (*yn ceisio ei wneud yn esmwyth*): Dewch chi, Sam, nid yw Rachel yn meddwl dim drwg!

SAM (*yn fwy sicr*): Nag ydi'n wir? Fe'i clywsoch yn galw meddyliau calon dyn yn lol?

ESTHER: Do, do; ond cellwair 'roedd hi, Sam bach.

SAM: 'Doeddwn i ddim am siarad dim ynglŷn â'r 'steddfod. Rachel soniodd am *Comrades in Arms*.

ESTHER: Eitha' gwir.

SAM: Ond, yn wir, Esther, fe ddyl'sech glywed ein *tenors* ni ar y *climax* yn y diwedd. Gallai'r angylion byth a'n curo. Na, ffaith! (*Yn eistedd*).

ESTHER: Yn wir! (*Yn dechreu torri bara*).

SAM: Ond 'rydych chi'n mynd i'r 'steddfod, wrth gwrs?

ESTHER: Dim heno, Sam.

SAM: Y fenyw! A Chôr Dwynant yn cystadlu yn erbyn Côr Pentwyn! Gwarchod pawb!

ESTHER: Na, nid wyf am fyned allan o'r tŷ heno.

SAM: Falle mai ofni gweld Côr Dwynant yn gwneud hewl â hên gôr John 'rydych chi?

ESTHER: O'm rhan i, 'rwy'n fo'lon i'ch côr ennill ganwaith, Sam bach.

SAM: Ddwedwch chi hynny yn wyneb John?

ESTHER: 'Rydw' i wedi ei ddweyd ugeiniau o droion eisoes.

SAM: Beth gynllwyn sy' arnoch chi heno, Esther? 'Roeddech chi'n arfer dilyn y canu yn gyson!

ESTHER: 'Rydw' i allan o hwyl heno, Sam.

SAM (*yn ansicr*): Rhai ôd ydych chi'r menywod, a dweyd y lleiaf. (*Yn dechreu eto.*). Wyddoch chi,

Esther, mae'n wlêdd i wrando ar ein *bottom bass*. Hylo!

(*Agorir y drws a chlywir llais JOHN. Edrychant i gyfeiriad y drws, heb ddweyd gair.*)

JOHN: Cewch eich doddi yn eich lle heno! Côr Dwynant yn gallu canu'n wir!

LLAIS (*o'r tu allan*): Dewch â *mourning cards* Pentwyn allan. Hei, fechgyn!

LLEISIAU (*o'r tu allan*): Ha, ha! Ie, ie! Etc.

JOHN (*yn y golwg erbyn hyn, ond â'i gefn at y lleill*): Arhoswch nes i Bentwyn ganu. *Tenors* goreu y frô, a *bass* heb eu hail. (*Yn uwch.*) Ie, ac nid perthynas i chi yw'r beirniad heno. (*Wedi cau'r drws ar y sŵn terfysglyd, trŷ, ac yna gwêl Sam*): O, 'rwy't ti yma, Sam? (*Hyn yn ychydig yn lledchwith.*)

SAM: Ydw, mae'n debyg. Perthynas i'r beirniad, aie?

ESTHER: 'Nawr, Sam! (*Yn troi at John.*) 'Rwy't ti 'nol yn gynharach heno, John.

JOHN (*yn ansicr*): Wel, Esther fach, mae hi—fel hyn—

SAM: Dwed ar unwaith dy fod am gael gwlêdd. wrth glywed ni'n canu *Comrades in Arms*.

ATGOFION

JOHN: Gwlêdd? Ha, ha! Dyna'r tro cyntaf i mi glywed canu fflat yn cael ei alw'n wlêdd. (*Yn gosod ei "thermos" a'r bocs bwyd ar y ford.*)

ESTHER: Dyna ddigon, John. Gadewch lonydd i'ch dadleu parhaus, y ddau ohonoch. Fe wna'r beirniad chwarae têtg â chi. Gwell i ti ymolch ar unwaith, John.

JOHN: Does gen i ddim amser at hynny. Ychydig o fwyd . . .

ESTHER: Beth? Yn mynd heb ymolch i ganol torf o ddynion mewn dillad glân! Rhag dy gywilydd, John! Dodaf y dŵr yn barod 'nawr. (*Yn cydio yn y "thermos" a'r bocs bwyd, ac yn mynd allan.*)

SAM: Wyt ti am i mi aros i ti?

JOHN: Fel y mynnot. (*Yn diosg ei gôt.*) Os amser genti?

SAM (*yn edrych ar ei oriawr*): Oes, oes; mae chwarter awr eto.

JOHN: Gwêll i ti fynd, mae'n siwr fod angen practis ar dy gôt. Dyna'r si, beth bynnag. (*Yn eis-tedd wrth y ford gyferbyn â Sam, ac yn dechreu codi llewysau ei grys.*)

ATGOFION

SAM: Rhai o dy gôt di wedi bod yn gwrando arnom ni, aie? Yr un hên drics.

JOHN: Gwrando arnoch chi'n wir. Ateb un peth, Sam. Ydi Wil Profundo yn canu yn eich côr heno?

SAM (*yn ansicr*): Nac ydi.

JOHN: Wyddost ti pam?

SAM: Y—y—mae anwyd trwm arno fe.

JOHN: Ha, ha! Oes, oes; ond sut cafodd yr anwyd?

SAM: Sut y gwn i? Cael gwlychfa falle.

JOHN: Ie, bwceded o ddŵr ar ei ben.

SAM: Bwceded o ddŵr ar ei ben?

JOHN: Ie, o'r ffenestr uwchben lle 'roedd efe'n gwrando, wythnos yn ôl. O, ie, *Niagara Falls!*

SAM: Anwiredd pob gair! 'Does gyda chi ddim *points* gwerth eu dwyn.

JOHN: Beth am y *double forte* yn y mudiad olaf?

SAM: Cyn y dewch o fewn i led cae i ni, bydd eisieu *double eighty* arnoch chi.

(ESTHER *yn dychwelyd.*)

ESTHER: Mae'r dŵr yn barod, John.

JOHN (*yn mynd allan â'i gôt ar ei fraich*): Ydi'n

Exit

Entrance

wir fod arweinydd Côr Dowlais i fyny yma neithiwr yn rhoi tipyn o bolish i chi? Ha, ha!

SAM (*yn cynhyrfu ac yn gwaeddi ar ei ol*): *Nonsense* i gyd; mae yna ddigon o bolish ar ein côr i lanhau dy 'sgidiau am flwyddyn.

ESTHER: Peidiwch a'i gymryd yn seriws, Sam. Tynnu'ch coes mae John.

SAM: Nid tynnu coes dyn yw dweyd celwydd fel 'na! Mae'n harweinydd ni yn ddigon o feistr ar ei waith heb help neb. O, ydi!

ESTHER: Dyna fe'n wir.

SAM: Mae William Phillips yn arweinydd di-guro. Mae'n ysbrydiaeth i'w weld yn arwain. Ac edrychwch ar ei wybodaeth!

JOHN (*yn ymddangos â'i ddwyllaw a'i wyneb yn llawn sebon*): Pwff! Gwybodaeth yn wir! Pasiodd yr un *exam.* erioed.

SAM: Y dyn! Dim ond deuddeg *certificate* sydd rhyngddo a chael ei *A.C.*

ESTHER: John, ei di byth heno!

JOHN (*yn dechreu mynd eto*): Paid â mynd heno, Sam: fe fydd yn galed i ti weld ein bechgyn ni yn

cipio'r cwpan. Ac fe arbedi y swllt am fynd i mewn.
(*Yn diflannu*).

SAM: Wyddoch chi, Esther, mae John braidd cyn-ddrwg ag erioed. Wn i ddim sut byddai rhyngom ni'n dau pe bae yntau'n canu heno gyda'i hên gôr.

ESTHER: Na'n wir.

SAM: Trueni hefyd nad ydi yn y côr. Ond dyna fe, daeth marwolaeth y ferch fach. (*Hyn yn dyner iawn.*)

ESTHER: Do.

(*Ychydig seibiant*).

SAM: Bu John bron a mynd yn wallgof yr adeg hynny, Esther.

ESTHER: Do.

SAM: Tŷ gwâg yw tŷ heb blentyn, Esther.

ESTHER (*gyda ymdrech*): Y—ie—Sam. (*Yn sychu deigrin.*)

SAM: Gallaf ei gweld hi 'nawr. Yr annwyl, dyna lygaid oedd ganddi, fel dwy ffynnon loew! Faint sy' 'nawr, Esther?

ESTHER: Blwyddyn gyfan.

SAM: Yr arswyd fawr! Fel mae'r amser yn mynd. Blwyddyn wed'soch chi, Esther?

ESTHER: Ie—i heno!

JOHN (*yn ymddangos eto ac yn sychu ei hunan â thywel*): A siarad am arweinwyr, fe wnaeth William Phillips *stroke* anfarwol yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Mi wn, fel ffaith, fod y beirniaid mewn *hysterics* am ei fod yn *curo six-eight time* o'r dechreu i'r diwedd yn lle *three-four*.

ESTHER: Ydi'r sebon yn y dŵr genti, John?

JOHN: Y—na—hynny yw—wn i ddim. . .

ESTHER (*yn mynd*): Fel arfer.

SAM: Ti elli adael ein harweinydd ni yn llonydd, John. Wn i am ddim sy'n siarad yn fwy bychanus am ddyn na'i fod yn ceisio arwain côr â chopi hên nodiant, ac hwnnw yn *upside-down*.

JOHN: Gwell hynny na gweld arweinydd yn arwain yn ffyrnig am bedwar *bar* cyfan heb wybod fod y côr wedi gorffen canu.

SAM: John, paid a dweyd . . .

ESTHER (*yn dychwelyd â dillad John ac yn eu rhoddi iddo*): Gwell iti wisgo—(*Sam, o'r neilltu: Ananias!*)—dy gôt a'th wasgod oreu, John.

JOHN: O'r goreu. (*Yn eu gwisgo gan siarad.*) Os

yw'r bwyd yn barod, Esther, mi gym'raf lond pen. Nid wyf am golli un côr yn canu.

SAM: Ond fe gollwch y cwpan, mae hynny'n sicr.

ESTHER: 'Rwy'n credu y byddai'n well i chi fynd, Sam. Rhaid i John gael ychydig o fwyd a newid 'i esgidiau cyn . . .

JOHN: Newid fy esgidiau! Pwy ar y ddaear lân sy'n mynd i sylwi ar fy nhraed?

SAM: Ti fyddi'n fwy esmwyth ynddynt, fachgen; ac fe fyddi'n sioncach yn dy 'sgidiau goreu i redeg adre' â'r newyddion fod ein côr wedi ennill y cwpan.

JOHN: Yr unig gwpan a gewch chi fechgyn heno yw cwpan wermod.

ESTHER: Rhaid sychu'r 'sgidiau gwaith hyn ar gyfer yfory, John. Mae'r amser yn pasio, Sam.

SAM (*yn codi*): Falle mai chi sy'n iawn, Esther. Dylwn i, fel un o'r côr, fod mewn pryd. Mae'n ddigon posibl mae'n tro ni fydd y cyntaf.

JOHN: Eitha' da. A thi wyddost y gair, "A'r cyntaf a fydd olaf."

SAM: Paid ag anghofio sut y trech'som ni chi ar *Hail, Bright Abode*.

ATGOFION

JOHN: Do, ond *fluke* oedd y cyfan. A 'doedd hi ddim yn hir cyn y maeddom chi yn yfflon racs ar yr *Hallelujah Chorus*. Fe roisom *Amen* i chi.

ESTHER: Chi fyddwch yn ddiweddar, Sam.

JOHN: Ond chware tég, chi gafodd y wobr yn 'Steddfod Maesglo, Sam.

SAM (*yn ansicr*): Beth am hynny?

JOHN: A chi oedd y côr gwaethaf yn y gystadleuaeth.

SAM: Y dyn! Sut hynny? Dim ond ni oedd yn cystadlu!

JOHN: Ha, ha, dyna fe! Dyna'ch unig obaith am ennill.

ESTHER: Y mae'n amheus gen i a yw'r holl siarad 'ma yn beth da i'ch llais hefyd, Sam.

JOHN: Os ellir ei alw yn llais!

SAM: Pan mae dyn yn eiddigeddus wrthyf, edrychaf ar y cyfan fel *compliment* i mi. 'Rwyt ti yn dod, John?

JOHN: Collwn i ddim o'r gystadleuaeth heno am gan' punt; na, ddim ar un cyfrif.

ESTHER: Wyt ti'n barod am dy fwyd, John?

ATGOFION

JOHN: Ydw. Dim ond fy 'sgidiau 'nawr. B'le mae nhw?

ESTHER: Cymer dy fwyd yn gyntaf. Mae'r cyfan yn barod gen i. (*Yn mynd allan*).

SAM: Wel, dyma fi'n mynd. (*Yna yn troi yn ol*) Ond un gair bach cyn cychwyn. Sylwa heno ar y *march* tua'r diwedd. Dyna lle bydd cyd-symudiad! A'r *climax* ar y diwedd! Fel hyn. (*Yn rhoi esiampl. Cwyd John ei fyseidd i'w glustiau*). Fe fydd yn ddigon i wneud y cyfansoddwr droi yn ei fedd.

JOHN: Gan ddychryn?

SAM (*yn fawreddog*): Gan ardderchowgrwydd y datganiad. Ffarwel, John, a chofia ddod. (*Yn cyrraedd y drws*).

ESTHER (*yn dod â'r plât bwyd*): Beth oedd y sŵn 'na 'nawr, John?

JOHN: Ha, ha! Rhoddodd rhywun gic i gi tuallan i'r drws!

SAM (*yn dod yn ol ychydig*): Mi rown gic i'ch côr chi heno nac anghofiwch mohono byth.

JOHN: Wyddost ti beth, Sam, buaset wedi cael fy lle i yn ein côr ni oni bae un peth.

SAM: Pwy sydd yn awyddus am uno â'ch côr *second rate* chi?

JOHN: Ie, dim ond un peth; ie, un peth.

SAM (*yn ddrwg-dybus*): O'n wir! A beth yw'r un peth yna, os câf ofyn?

JOHN: Llais.

ESTHER: John! John!!

SAM: Jelws, 'rwy'n gweld. Beth bynnag, 'rwy'n agor fy nghêg wrth ganu i'r llais ddod allan.

JOHN: Ha, ha! Diar annwyl! Wyt, wyt! Dim ond yr wythnos ddiwethaf 'roedd Rachel yn dweyd fod yna ddrafft ofnadwy yn y tŷ pan oeddet yn agor dy gêg i bractiso ychydig.

ESTHER: Peidiwch a sylwi arno, Sam.

SAM: Dywedodd hi hynny, Esther?

ESTHER: Peidiwch a sylwi ar John, 'rwy'n dweyd.

JOHN: 'Rwyt ti'n gweld, Sam, fod Esther yn ameu dim.

SAM: Mae'r menywod 'ma yn dweyd pethau ofnadwy tu ol i'n cefnau ni.

JOHN: A'r gwaethaf yw eu bod yn dweyd y gwir, Sam bach.

ESTHER: Yn wir, John!

SAM: Diain i, ond mae'r menywod 'ma â chôf aruthrol ganddynt am ein gwendidau ni, y dynion. Y maent yn wahanol iawn i ni yn hynny.

JOHN: O, sut hynny?

SAM: Pan mae dyn yn clywed rhywbeth, aiff y peth i mewn drwy un glust ac allan trwy'r llall, ond am fenyw—hei!

ESTHER: Beth am danom ni, Sam?

SAM: Aiff i mewn trwy'r ddwy glust ac allan ar flaen ei thafod.

ESTHER: Sam! Sam!! *Too bad*, yn wir.

JOHN: Go dda, Sam, am unwaith. Trueni na fuasai dy ganu gystal.

SAM: Ti elli adael y canu i mi—a'r agor fy nghêg i ganu hefyd. Gall Esther yma dystio fod gennynt dithau wyneb digon agored pan 'rwyt ti'n disturbo'r cymdogion â'th floeddio.

ESTHER: Gadewch lonydd, eich dau, yn wir!

SAM: John ddechreuodd, Esther. Ond dyma fi'n mynd. (*Yna yn dychwelyd eto.*) John, machgen i, ar dy waethaf, mi ganaf heno fel yr eos.

ATGOFION

JOHN: Glywaist ti 'nawr, Esther? Mae Sam yn meddwl canu heno fel yr eryr!

ESTHER: Yr annwyl, annwyl! Bydd yr eisteddfod hanner drosodd cyn i un o chi gyrraedd yno.

SAM: O wel, dyma fi'n mynd. (*Yn dychwelyd eto.*) Ond cofia fy ngeiriau, John, bydd *Comrades in . . .*

ESTHER: Mae'n ugain munud wedi saith, Sam!

SAM: Wel, noswaith dda, Esther. *So long*, John, mi wela'i dy wyneb hir di nes ymlaen.

ESTHER: Noswaith dda, Sam.

(*SAM yn hanner mynd allan, ond yn troi yn ol eto.*)

SAM: O, ie, John, sylwa di fan hyn heno. (*Yn tynnu copi o'r darn allan o'i logell.*)

ESTHER: Ewch, Sam! (*Yn ei wthio allan.*)

SAM: Eitha' da! Wel, noswaith dda, Esther.

(*Y drws yn cau. Clywir ef yn canu, "Love for our dear country we cherish."*)

JOHN (*yn mynd i'r drws, yn ei agor, ac yn galw ar ol SAM*): Sam!

SAM (*o'r tuallan*): Beth 'nawr?

JOHN: Gwendid eich côr chi yw—yw . . .

SAM: Yw beth?

ATGOFION

JOHN: Nad oes gyda chi ddim *tenors* na *bass* gwerth yr enw.

SAM: Twt, twt! Lol i gyd!

(*JOHN yn cau y drws dan chwerthin.*)

ESTHER: Yr ydych eich dau fel plant bach.

JOHN: Mae plant bach yn dweyd y gwir, fel rheol. (*Yn edrych ar y cloc.*) Yr annwyl fach, mae'n hanner awr wedi saith. (*Yn eistedd wrth y bwrdd gan wyn-ebu'r dorf.*)

(*O hyn i ddiwedd yr Act rhaid i ysgogiadau JOHN ar-ddangos brys mawr. Hefyd, ni ddylai'r ddialog fod yn rhy gyflym. Byddai yn fantais i'r chwarae i JOHN fwyta banana neu afal.*)

ESTHER: Mae clebran yn mynd â'r amser. Cymer bwyll, John bach!

JOHN (*â'i fwyd yn ei gêg*): Ond—mm—ww . . .

ESTHER: Beth?

JOHN (*yn ymdrechu eto*): Byddaf—yn—ddiweddar.

ESTHER: Mae dy fryd ar fynd heno?

JOHN (*yn llyncu rhwng ei eiriau*): Cymerwn i—ddim yn y byd—am fod—yn absennol heno.

ATGOFION

ESTHER (*ar ol seibiant*): 'Rwy'ti wedi clywed digon o gystadleuaethau, a gwell rhai na hon.

JOHN (*â'i ddwyllaw yn symud*): Wn—mm—mm—
ss . . .

ESTHER: 'Rwy'ti'n siwr o dagu os na fyddi yn ofalus.

JOHN: 'Rwyf am—weld Dwynant—a Phentwyn—yn setlo'r pwnc—unwaith am byth. A mae beirniad da 'na heno.

ESTHER (*yn ymroddi*): O'n wir.

JOHN: Mae'n bechgyn ni yn—yn—wel, nid oes eu trechu ar *Comrades in Arms*.

ESTHER: Fynni di ychydig o dê?

JOHN (*yn arwyddo "ie" â'i ben*): A—mm—ww—oo.

ESTHER: Beth?

JOHN: Reit—i olchi hwn i lawr. (*A ESTHER allan.*) Esther!

ESTHER (*o'r gegin fach*): Ie!

JOHN: Mae'n *tenors*—ni—yn—wel, daw neb—yn agos atyn' nhw. Na!

ESTHER: Llond cwpan?

JOHN: Ie—a digon o laeth i'w oeri.

Entrance

ATGOFION

ESTHER (*yn ymddangos*): John bach, paid a stwffo dy hunan felna; ti fyddi 'yn wael ar ol hyn.

JOHN: Mm—mm—ss—ww . . .

ESTHER: Paid a siarad a bwyta yr un pryd.

JOHN (*ar ol ei lyncu ag ymdrech*): Mae côr Sam—yn colli—yn y *down bass*.

ESTHER (*heb ddiddordeb*): O!

JOHN: Ac y mae eu *second tenors* nhw—yn wallus—yn yr *intonation*.

ESTHER: Rhagor o laeth?

JOHN (*wedi profi'r tê â'i gael yn rhy boeth*): Mae hwn yn rhy boeth. Diferyn bach. (*ESTHER yn mynd.*) Ac Esther!

ESTHER (*o'r gegin fach*): Beth 'nawr?

JOHN: Mae—mm—ss—ww . . .

ESTHER: Dyna ti eto.

JOHN: 'Does dim *attack* gyda nhw.

ESTHER (*yn ymddangos. Mae hi yn awr wedi diosg ei "overall," ac ymddengys yn ei gwisg ddu*): Fe gei di *attack* yn'u lle nhw os na chymeri fwy o amser. (*Daw hi i'r dde i JOHN i arllwys y llaeth.*)

JOHN (*ar ddechreu siarad eto, ond yn aros*): Esther!

Exit

Entrance

ATGOFION

'Rwyt ti'n dod i'r eisteddfod wedi'r cyfan?

(*Hyn yn obeithiol, â gwên ar ei wyneb.*)

ESTHER: Nac ydw, John. (*Yn troi oddiwrtho.*)

JOHN (*yn dyner*): Wel, pam wyt ti wedi gwisgo fel hyn heno?

ESTHER (*yn ansicr*): Meddyliais—yn . . .

JOHN: Wyt ti'n mynd lawr i'r dre'?

ESTHER: Nac ydw.

JOHN: I ble 'rwyt ti'n mynd, ynte?

ESTHER: Nid wyf yn mynd allan o'r tŷ.

JOHN (*yn ddyryslyd*): Pam 'rwyt ti wedi gwisgo fel'na? Wyt ti'n disgwyl rhywun yma?

ESTHER: Nac ydw. Ond dôs ymlaen â dy fwyd.

JOHN (*yn dyner*): Yn wir, Esther fach, tyrd gen i i'r eisteddfod. Fe fydd fel yr hen amserau i glywed y corau wrthi am y cwpan.

ESTHER: Na, ddim heno, John.

JOHN: Wel, dyna ôd wyt ti heno. (*Yn rhoddi i fyny ac yn dechreu bwyta eto.*) Ond fel 'roeddwn yn dweyd, *attack* sy'n cyfrif. (*Yn bwyta*) A—ww—mm—ss . . .

ESTHER: A ydwyt yn dweyd rhywbeth?

ATGOFION

JOHN: Wel, 'rwy'n treio, beth bynnag. Mae'r bechgyn fel un llais yn (*yn canu*) *Love for our dear* —. (*Yn pesychu yn arswydus.*)

ESTHER (*gan guro ei gefn*): Carwn pe byddet yn gwneud un peth ar y tro—canu neu fwyta.

JOHN (*gydag ymdrech*): Aeth—ychydig i lawr—y ffordd *wrong*; ond y mae'r bechgyn—fel un yn dod i mewn—yn y fan yna. (*Yn dechreu ffugio arwain côr, â'r gyllell a'r fforc yn ei ddwyllaw*): Mae llaw Cantwr Bach yn symud yn chwim fel hyn . . . (*Syrth cwpan i'r llawr ar ei dde yn ddarnau mân. Edrych y ddau ar y darnau am eiliad, heb symud dim.*)

ESTHER: Wel, 'rwy'n dechreu gwan-galonni. (*Yn codi y darnau.*)

JOHN (*rhwng y bwyta*): Paid a becco, Esther fach. Daw'r côr â'r cwpan arall yn ei le heno.

ESTHER: Mae'r amser yn hedeg. (*Yn mynd â'r darnau allan.*)

JOHN (*gan droi at y drws*): Ac Esther!

ESTHER (*o'r gegin fach*): Ie, beth 'nawr?

JOHN: Mae Williams, y *Manager*, wedi sibrawd yng nghlustiau'r pwyllgor fod 'na wlêdd i fod ar ei gost ef os enilliant heno!

ESTHER : O, yn wir !

JOHN (*yn falch*) : Ac y maent wedi fy ngwahodd i yno fel hên aelod o'r côr.

Entrance ESTHER (*yn ymddangos, gan gario esgidiau John*) : Rhaid ennill yng nghyntaf, onid oes ?

JOHN : Ennill ? Nid oes colli i fod. Wm—mm—
ss

ESTHER : Dyna ti'n dechreu eto.

JOHN : Mae'r *accelerando* ar y mudiad olaf yn odidog. Wyddost ti, Esther, ar ol y consart nos Fawrth, aeth hanner dwsin o fechgyn ieuenc oedd yn y dorf i listo gyda'r *Welsh Guards*.

ESTHER : Bydd popeth ar ben cyn ei di allan o'r tŷ.

JOHN : 'Rwyf bron a gorffen. (*Yn llawn o'i destun eto, ac yn desgrifio yn ddramatig*) : Nid yn rhy gryf ar y cychwyn, yna yn dod allan â'r holl *reserve* yn y diwedd. (*Yn fawreddog*) : Ie, *reserve*, dyna'r gair.

ESTHER : Os nad oes *reserved seat* genti heno, bydd hi ar ben arnat i fynd i fewn i'r *hall*.

JOHN (*yn symud ei gadair*) : Dyna ! B'le mae'r

'sgidiau ? O, diolch ! (*Yn llawn apêl*) : Oes yna eisieu 'u newid nhw'n wir, Esther ?

ESTHER : O'r annwyl, oes ! A choler a *tie* hefyd.

JOHN : Dim coler a *tie* heno, Esther. Af â'r mwffler wen. Bl'e mae hi ?

ESTHER : Beth ddywed pobl wrth dy weld ?

JOHN : Mynd i glywed y *male voice* bydd y dorf, nid i astudio ffashiwnau. (*Yn eistedd ar y gadair wrth ben y ford, ar y chwith—i'r gynulleidfa*) : 'Rwy'n dotio ar *Comrades in Arms*. Mae 'na ddigon o fynd ynddo.

(*Yn tynnu ei esgidiau gwaith i lawr.*)

ESTHER : 'Does dim mynd ynot ti heno, John. Mae mwy o fynd yn y cloc.

JOHN : Fydda' i ddim pum' munud o'r tŷ i'r *hall*. (*Yn canu.*) *Love for our dear country we cherish.*

ESTHER : O'r annwyl ! (*Yn dechreu casglu'r llestri.*)

JOHN (*yn eithaf di-sylw o honi*) : Gallaf weld yr hên Gantwr Bach yn awr ! (*Yn gwneud ysgogiadau dyn yn arwain côr.*) Ennill ? Gwnaiff !

ESTHER : Mae'n tynnu ymlaen am wyth o'r gloch, John.

JOHN (*yn gosod un esgid arno*): Amynedd, fy merch i; amynedd. (*Yn troi ati.*) Yn wir, Esther, gall'swn feddwl dy fod yn awyddus iawn i mi fynd allan heno.

ESTHER (*yn frysiog*): Na, na, dim ond sicrhau dy fod mewn pryd i glywed y corau yw fy mwriad.

JOHN: Dere gyda fi heno, Esther. Yn wir, 'nawr.

ESTHER: Na, diolch; gwell gennyf aros gartref.

JOHN: Yr wyt tu hwnt i mi heno. Wyddost di beth, Esther, byddai'n well gen i wrthod can' punt na cholli'r gystadleuaeth 'ma. 'Does yr un gallu a'm ceidw yn y tŷ heno, a finnau'n gwybod fod y bechgyn wrthi am eu bywyd i lawr 'na.

ESTHER: O'r gore, John. Af i olchi'r llestri 'ma. Galw arnaf cyn mynd. (*A allan gan gario rhai o'r llestri.*)

JOHN (*yn ei dilyn â'i lygaid nes iddi fynd allan o'r ystafell*): Wel, wel, y menywod 'ma! (*Rhydd ddatganiad o linell neu ddwy o'r "Comrades in Arms," yna cydia yn yr esgid arall, gan ddechreu datod y lasen. Yn ei frys tŷr y lasen.*) Daro shwd beth! Esther!

ESTHER: Beth 'nawr?

(*O'r gegin fach clywir sŵn y llestri.*)

JOHN: B'le câf i lasen newydd? 'Roedd yn rhaid i hon dorri 'nawr. (*Gesyd ei esgid ar y llawr.*)

ESTHER: Yn nror y ford.

JOHN: Reit. (*Yn agor y "drawer" ac yn teimlo.*)

ESTHER: Gefaist di un?

JOHN: Hanner munud. (*Yn canu, "Love for our dear country," etc.*) O, dyma hi!

(*Tŷn allan lasen, ond wrth wneud hynny syrth doli fach i'r llawr. Saif JOHN heb symud am ychydig, â'i lygaid yn craffu ar y ddoli. Gweddnewidia, a chyda chyffro dwfn yn argraffedig ar ei wyneb, plyg yn araf a chwyd y ddoli i fyny. Saif felly am ysbaid, ac yna cerdda yn araf at yr almanac. Ar ol syllu arno rhydd "start" sydyn, ac yna daw yn ol yn ben-isel at y ford. Eistedda yn yr un gadair, ei holl ymddygiad yn arddangos dwyster. Gesyd y ddoli ar y ford. Yna, yn araf, TYN YR ESGID ODDIAM EI DROED. Deil y ddoli yn ei law chwith, gesyd ei freichiau ar y ford â'i ben yn pwyso arnynt, ac wyla'n dawel. Ymddengys ESTHER, gan gario hêt JOHN yn ei llaw chwith, heb*

ATGOFION

weld yn union fod dim o'i le ; yna saif yn llonydd gan sylweddoli. Daw cyffro i'w hwyneb. Neshâ yn araf y tu ol i JOHN, gan sychu ymaith ddeigrin. Gesyd yr hêt ar y ford, ac yna ei llaw chwith yn dyner ar y llaw sy'n dâl y ddoli. Cwyd JOHN ei law dde, heb godi ei ben, cydia ESTHER ynddo â'i llaw dde hithau, a chan ei gofleidio plyg ei phen nes pwysu ar JOHN. Yna, a'r ddau yn wylu yn dawel, disgyn, yn araf, y

LLEN.

